

RHEOLWR BLAEN TŶ AR DDYLETSWYDD
Theatr Clwyd
Disgrifiad Swydd

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Gweithredol (y Cyfarwyddwr Artistig – Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol – Liam Evans-Ford) yn creu'r newidiadau diwylliannol a gweithredol pwysicaf yn hanes y 42 o flynyddoedd ers i'r theatr fod yn gweithredu, cyfnod a fydd yn ailddiffinio ac yn diogelu dyfodol y ganolfan gelfyddydau unigryw a gwerthfawr hon – y theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw yng Nghymru.

Mae Theatr Clwyd yn cynhyrchu mwy nag wyth sioe y flwyddyn - yn y Saesneg yn bennaf, ond hefyd yn y Gymraeg - ac mae'n cyflwyno rhywfaint o'r gwaith hwn ar daith yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Mae ganddi raglen waith hynod lwyddiannus ar gyfer a gyda phobl ifanc sy'n cael ei chreu yn yr adeilad a'r tu allan iddo, a theithiau i ysgolion lleol, yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r adeilad hefyd yn croesawu amrywiaeth o berfformiadau drama, dawns, cerddoriaeth a chelf teithiol ar gyfer pob oed, rhaglen gynhwysfawr o ffilmiau a rhaglen gymunedol brysur. Hefyd mae'r sefydliad ar flaen y gad gyda gwaith cysylltiedig â'r celfyddydau a lles.

Rydym wedi gwneud datblygiadau mawr i newid siâp ein rhaglennu; rydym wedi ymrwymo i osod profiad yr ymwelydd wrth galon ein penderfyniadau; rydym wedi dechrau cynyddu ein digwyddiadau masnachol; rydym wedi cymryd y camau cyntaf tuag at ddyfnhau ein perthynas â'n cymuned; rydym wedi dechrau datblygu ein cynigion ategol ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i farchnata ein gwaith a'n hadeilad yn fwy strategol ac effeithiol. Hefyd rydym wedi cyflwyno astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ailddatblygiad cyfalaf mawr ac wedi derbyn cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer bwrw ymlaen â'r cynlluniau i Ddylunio a Datblygu.

Theatr Clwyd yw'r unig theatr gynhyrchu yn y DU sy'n eiddo i awdurdod lleol o hyd. Gyda throsiant o £5.3m yn 2016-17, fe'i cefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir y Fflint a'i gweithgareddau ei hun. Cynhelir rhyw 2,115 o ddigwyddiadau unigol yn y theatr bob blwyddyn, gydag oddeutu 200,000 o bobl yn eu mynychu, a 50,000 o aelodau cymunedol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau allgymorth. Yn ystod 2016/17, gwelodd 220,000 yn rhagor o bobl sioeau gan Theatr Clwyd mewn llefydd eraill yn y DU.

RHEOLWR BLAEN TŶ AR DDYLETSWYDD

Yr Adran Gweithrediadau

Mae'r Adran Gweithrediadau yn Theatr Clwyd yn gyfrifol am swyddogaethau logisteg yr adeilad. Yn rhan greiddiol iddi mae hybu a chynnal profiad rhagorol i'r gynulleidfa a sicrhau bod Theatr Clwyd yn amgylchedd croesawus a diogel i'r cyhoedd, artistiaid sy'n ymweld, a staff.

Pwrpas y Swydd

O dan gyfarwyddyd y Rheolwr Gweithrediadau, ysgwyddo cyfrifoldeb gweithredol am flaen y tŷ, gan sicrhau gwasanaeth diogel, effeithlon ac o safon uchel yn gyson, i gynulleidfaedd, ymwelwyr a staff.

Prif gyfrifoldebau

Blaen Tŷ a Gweithrediadau

- Cyfrannu at gyfathrebu a chydweithredu da ar draws yr holl dimau i sicrhau bod perthnasoedd gwaith rhagorol yn cael eu meithrin.
- Cymell, arwain drwy esiampl a goruchwyllo'r tîm Blaen Tŷ, gan gynnwys gwirfoddolwyr, yn ddyddiol, drwy gynnal y safonau uchaf wrth gyflwyno; dangos agwedd bositif; delio'n brydlon ac yn broffesiynol ag unrhyw geisiadau a darparu gwasanaethau cwsmeriaid rhagorol i noddwyr a'r holl gwmnïau sy'n ymweld.
- Sicrhau bod pob agwedd ar y meysydd blaen tŷ, bar a chaffi'n cynnig amgylchedd glân, taclus a chroesawgar i gwsmeriaid a darpar gwsmeriaid, ymwelwyr a staff.
- Goruchwyllo lles a diogelwch y gynulleidfa a chynnal gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid bob amser.
- Sicrhau bod prosesau diwedd dydd fel cyfrif yr arian parod yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn ddiogel.
- Bod yn gyfrifol am gloi a diogelu'r adeilad ar ddiwedd y shifft olaf bob dydd.
- Croesawu'r holl gwmnïau, y perfformwyr a'r artistiaid pan maent yn yr adeilad a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth.
- Cynnal archwiliadau rheolaidd gan sicrhau bod pob gofod, yn fewnol ac yn allanol, mewn trefn dda, ac adrodd yn ôl i'r Rheolwr Gweithrediadau pan nad ydynt.
- Cyfarfod y Rheolwr ar Ddyletswydd ar ddechrau unrhyw shifftiau i sicrhau pontio llyfn a throsglwyddo gwybodaeth.
- Cadw cofnod ysgrifenedig cyflawn a manwl gywir am ddigwyddiadau yn ystod shifftiau a hefyd cyfathrebu'r rhain ar lafar i'r Rheolwr Gweithrediadau os yw hynny'n bosib.
- Helpu i greu awyrgylch o greadigrwydd yn yr adeilad, sy'n annog artistiaid a chynulleidfaedd i greu a chymryd rhan yn rhaglen artistig Theatr Clwyd.

Trwyddedu, lechyd a Diogelwch

- Sicrhau cydymffurfiaeth bob amser â'r holl gyfarwyddyd statudol ar gyfer tân, diogelwch, lechyd a Diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau argyfwng.
- Sicrhau y cedwir bob amser at reoliadau trwyddedu ac lechyd a Diogelwch.

- Goruchwylio a mynychu ymarferion tân, a gyda'r Rheolwr Gweithrediadau, sicrhau bod pob aelod o'r tîm Blaen Tŷ'n gyfarwydd â'r weithdrefn briodol, a bod aelodau'r tîm yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar ymwybyddiaeth o dân.
- Arwain pawb os oes angen gadael yr adeilad.
- Gweithredu fel swyddog Cymorth Cyntaf ar gyfer Theatr Clwyd (rhoddir hyfforddiant os oes angen).
- Cadw cofnodion am unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau a chadw cyflenwadau Cymorth Cyntaf priodol.

Arall

- Gweithredu er budd gorau Theatr Clwyd bob amser.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n rhesymol ofynnol gan y Rheolwr Gweithrediadau
- Cynrychioli a hybu'r sefydliad yn bositif ar bob lefel.

Manyleb y Person

Hanfodol

- Profiad ymarferol mewn rôl weithredol gyda chwsmeriaid mewn lleoliad diwylliannol, atyniad i ymwelwyr, arlwyyo, adwerthu, gwesty, bwyty, bar neu amgylchedd lletygarwch arall a/neu gymhwyster cydnabyddedig priodol.
- Dangos angerdd dros weithio yn y sector celfyddydau perfformio.
- Profiad o oruchwylio, cymell ac ysbrydoli aelodau'r tîm rheng flaen (staff a gwirfoddolwyr) mewn ffordd bositif drwy gyfrwng arferion gwaith rhagorol.
- Gwybodaeth am ofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a gweithio gyda chynulleidfaoedd / ymwelwyr sydd ag anghenion arbennig.
- Sgiliau gweinyddu trefnus ac effeithiol.
- Sgiliau TG medrus.
- Gallu clir i gyfathrebu'n effeithiol a hyderus, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gyda grwpiau amrywiol o bobl.
- Dealltwriaeth o amrywiaeth a chynnwys ac ymrwymiad iddynt.
- Ymrwymiad i ragoriaeth artistig.
- Gallu peidio â chynhyrfu dan bwysau.
- Agwedd hyblyg at oriau gwaith er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth, gan gynnwys gweithio gyda'r nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc.

Dymunol

- Gwybodaeth am gymuned leol Theatr Clwyd a pharodrwydd i ddysgu amdani.
- Gwybodaeth am theatr, dawns a ffurfiau celf eraill, yn y DU yn gyffredinol ac yng Nghymru'n benodol.
- Gwybodaeth ddiweddar am drwyddedu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch.
- Cymwysterau Iechyd a Diogelwch.
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf.
- Profiad o reoli digwyddiadau.
- Gwybodaeth dda am dechnegau hyrwyddo, technegau gwerthiant a marchnata.
- Trwydded yrru lawn a glân.
- Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.

Rydym yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwmo i gynyddu nifer ein cyflogeion dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd byddwn yn cefnogi cyflogeion newydd a phresennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.

Bydd trefniadau gweithio rhan amser, rhannu swydd a hyblyg yn cael eu hystyried.